CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
CYFARFOD MISOL 25ain O FEHEFIN 2009 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS, LLANBEDR P.S.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd);
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter;
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Kistiah Ramaya; Chris Thomas & Derek Wilson
Arolygydd yr Heddlu Nicola Carter (7.30pm-8.05pm)
Mrs Janet Evans (7.30pm-7.40pm)
Mr Carl Stringer – Gohebydd y Wasg y Carmarthen Journal
Mr Wil Gant – Gohebydd y Wasg y Cambrian News

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod.
Cyn dechrau'r Cyfarfod llawn cyflwynwyd tarian i Mrs Janet Evans fel cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth eang i'r Aelwyd yr Urdd yn lleol ac fel Gohebydd y Wasg Llambed ar gyfer y *Cambrian News*. Dywedodd Mrs Evans bod hyn yn anrhydedd o'r radd flaenaf a diolchodd i'r Cyngor Tref am ei gefnogaeth parhaol i'r *Eisteddfod Pantyfedwen Llambed* ac i'r *Urdd* fel sefydliad.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

2.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Gyng. Dorothy Williams, y Gyng. Elsie Dafis, y Cynghorydd Robert (Hag) Harris a'r Cynghorydd Ifor Williams.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Boed i'r canlynol ddatgan eu diddordeb personol pan drafodwyd y canlynol:

3.1 Cais am gymorth ariannol gan Bwyllgor y Carnifal: Y Maer Selwyn Walters a'r Gyng. Mason-George.

3.2 Cais am gymorth ariannol gan Y Ffair Fwyd: Dirprwy-Faer Rob Phillips a'r Cyng. Chris Thomas.

3.3 Caniatâd Cynllunio ar gyfer y Ganolfan Deuluol Llambed: Cyng. Mason-George gan ei bod yn cael ei chyflogi gan y Ganolfan a'r Gyng. Barton, gan mai hi yw ysgrifenyddes y Pwyllgor Rheoli.

3.4 Cais am gymorth ariannol ar gyfer y costau dyfrhau'r planhigion y basgedi sy'n hongian, Y Siambr Fasnach: Cyng. John Davies a'r Cyng. Chris Thomas.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Croesawyd yr Arolygydd yr Heddlu Nicola Carter i'w chyfarfod cyntaf y Cyngor Tref. Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol:

4.1 Ardal Gwahardd Alcohol (AGA):
Mae ffiniau'r AGA wedi, erbyn hyn, eu sefydlu i gynnwys Sgwâr Harford, Parc-yr-Orsedd, Maes-Parcio'r Sainsbury a'r 4 prif heol i fewn i'r dref. Bydd y Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn cychwyn ar gyfnod ymgynghori gan aelodau'r cyhoedd a masnachwyr yr AGA yn ystod y 4-6 wythnos nesaf. Dosberthir yr wybodaeth i bob person o fewn yr AGA (wedi ei baratoi gan Adran Drwyddedu CSC) a bydd ymweliadau o ddrws i ddrws gan yr Heddlu. Bydd 6-

8 wythnos ychwanegol cyn dechrau ar y broses o wneud cais ffurfiol ac i'r Ardal Arfaethedig dderbyn ystyriaeth gan yr Adran Drwyddedu y CSC. Saif y penderfyniad terfynol i gyflwyno'r AGA neu i'w gwrthod yn nwylo'r CSC a bydd yn ofynnol iddynt gyfiawnhau eu dewis.
Gohiriwyd y cais y llynedd gan na fedrodd yr heddlu ddod o hyd i dystiolaeth ddigonol yn ymwneud â throseddau'n gysylltiedig ag alcohol yn yr Ardal. Boed i gynghorwyr gydnabod a derbyn realiti ystategol y sefyllfa ond pwysleisiwyd fod digwyddiadau parthed ymddygiad gwrthgymdeithasol a meddwod yng nghyffiniau Sgwâr Harford a Stryd y Farchnad ac o gwmpas yr Archfarchnad Somerfield/Sainsbury yn cael eu cydnabod yn broblemau parhaol a niweidiol gan drigolion y dref. Caiff effaith anffafriol ar ansawdd eu bywyd.
Mae'r Ddeddf Lleihau Troseddau Difrifol 2006 yn gwarantu awdurdodau lleol i wahardd yfed alcohol yn gyhoeddus mewn mannau penodedig os yw "niwsans neu cythrudd" yn broblem parhaus oherwydd dylanwad y ddiod feddwol. Rhoddir yr hawl i'r heddlu i waredu â photeli wedi eu hagor, caniau ac unrhyw gynhwysydd sy'n dal alcohol neu diodydd caeëdig sy'n deybygol, yn eu barn hwy, o gael eu hyfed yn yr Ardal. Gall y rhai sy'n gwrthod cydweithredu dderbyn cosb o £500. Boed i'r Arolygydd Carter sicrhau aelodau y byddai'r heddlu'n dal i fod yn wyliadwrus , tra bod yn aros am ddyfodaid yr AGA, yn enwedig o gwmpas Sgwâr Harford.
Mae'r AGA wedi bod yn bwnc trafod gan y CT ers ystod o dair blynedd a dywedodd y Maer, "Rhaid i ni geisio cau pen y mwdwl cyn gynted â phosibl". Mae'r CT wedi cytuno i dalu hanner y gost, i fyny at £2,500 i ddod â'r Gorchymyn i fodolaeth.

4.2 **Briffiodd yr Arolygydd** yr aelodau ar yr ystadegau'n ymwneud â throseddau'n Llambed, gan atgyfnerthu statws y dref fel un o'r ardaloedd diogelaf i fyw ynddi, o fewn y Deyrnas Unedig. Bu 8 lladrad yn llai eleni wrth gymharu â'r un amser y llynedd.

4.3 **Y mae'r heddlu ar hyn o bryd** yn ymwneud ag arolwg â'r cyhoedd yn holi eu barn am eu hyder yng ngwasaneth yr heddlu.

4.4 **Boed i aelodau drafod**:

4.4.1 **Y problemau traffig parthed Mountwalk**. Trosglwyddwyd yr ymateb a dderbyniwyd gan GSC ynglŷn â'r cyfarfod o'r 3/04/2009 at sylw'r Arolygydd. Byddai aelodau'n dal i fonitereiddio'r sefyllfa.

4.4.2 **Y problemau parcio ar Stryd Y Felin**- gwaherddir parcio ar y stryd yma o 10.00am i 6.00pm ond yn aml anwybyddir y rheol. (i adrodd hefyd at sylw'r CSC); parcio ar balmantau Heol y Porthmyn a'r gorlenwad o gerbydau yng nghyffiniau'r ysgol gynradd newydd. Gan nad oes Warden Traffig cyson ar gael yn y dref cytunodd yr Arolygydd i fonitereiddio'r sefyllfa.

Ar derfyn y drafodaeth diolchodd y Maer i'r Arolygydd Carter am ei chyfraniad ffres.

5. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 28AIN O FAI 2009**

Derbyniwyd cofnodion Fis Mai fel rhai cywir arwahân i'r canlynol: fersiwn Saesneg yn unig.

5.1 **Pwynt 6.1**: Nodwyd fod y Dr Medwin Hughes wedi ei apwyntio'n Is-Ganghellor *PC Y Drindod Dewi Sant*. Dylai ddarllen, " Y mae'r Dr Medwin Hughes wedi ei apwyntio'n Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Llanbedr PS." Ar hyn o bryd ef yw Is-Ganghellor y ddau sefydliad, yng Nghaerfyrddin a Llambed gan nad yw'r *PC Y Drindod,* cyn belled, wedi cymryd drosodd y Brifysgol yn Llambed ac o'r herwydd nid yw'r Brifysgol *PC Y Drindod Dewi Sant*, wedi ei sefydlu.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Canlyniad cais am gymhorthdal Y Drindod Dewi Sant: Roedd penderfyniad ynglŷn â'r £18miliwn o gyllideb o'r *Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio* sy'n allweddol ar gyfer sicrhau llwyddiant y fenter fod wedi ei wneud gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar yr 8fed o Fai 2009. Ysgrifennwyd at GCAUC i siarsio'r Corff i gytuno i'r cais am gymhorthdal ar y 5ed o Fai 2009. Disgwylir ateb i lythyr y Cyngor Tref.

6.2 Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref: cytunodd y Cyng. Derek Wilson i glustnodi sylw pellach i atgyweirio cyflwr yr hysbysfwrdd gan gynnwys ail-osod y drysau. Gofynnodd iddo adrodd nôl yn ystod y cyfarfod nesaf. Penderfynwyd mai cyfrifoldeb y Clerc byddai arddangos y posteri. Adroddodd y Gyng. Barton bod polisi yn ymwneud ar hyn a ganiateir yng nghynnwys y posteri wedi ei sefydlu ynghynt; caniateir holl bosteri gyda'r eithriad i'r rai hynny sy'n cynnwys deunydd anghyfreithlon neu anweddus.

6.3 Bin Ail-gylchu ar gyfer y dref: lleoliadau arfaethedig: cytunwyd ar leoliad y ddau fin, un ym Mharc-yr-orsedd a'r llall ar Stryd y Farchnad – bydd angen trwydded gan GSC i leoli bin ar eu heiddo cyn bwrw ymlaen â'r cais dan law'r Cynllun Trefi Taclus a chodi yswiriant ychwanegol. Bydd y Cynllun Trefi Taclus ond yn cwrdd â'r gost o un bin. Bydd yn ofynnol i'r bin arall gael ei dalu o gronfa'r CT. (i fod yn ddu mewn lliw ac i gynnwys y penawdau metel/plastig).

6.4 Cael gwared â'r graffiti ar hen bont y Rheilffordd: penderfynwyd gadael y mater naill ochr, ond mewn golwg..

6.5 Cae Maesyderi: cynhaliwyd gyfarfod o fudd ar y 3ydd o Fehefin (cofnodion wedi eu dosbarthu). Adroddodd y Maer bod cynrychiolwyr yr Archfarchnad Sainsbury wedi cysylltu ag e i gynnig eu gwasanaeth ar gyfer prosiect cymunedol. Cynigwyd y Cae Maesyderi a byddant yn cyfarfod ar safle'r cae ar Ddydd Sadwrn 27ain o Fehefin gyda'r bwriad o dorri'r gwair, tocio'r berth ac i drin materion brys eraill. Estynnwyd gyfle i'r holl gynghorwyr i gwrdd â'r Tîm Sainsbury ar y cae ar y Sadwrn canlynol am 10am. Ail-leolir un o'r gatiau presennol. Hysbysodd y Cyng. Chris Thomas o'i fwriad i archebu gât addas ar gyfer cadair olwyn / cadair-wthio ond yn anaddas ar gyfer anifeiliad mawrion megis ceffylau. Caiff hwn ei leoli'n y gwagle sy'n bodoli ar y ffens. Dywedwyd fod presenoldeb y ceffyl yn parhau ar y cae a holwyd tybed a fyddai'n ddoeth i folltio'r ddwy gât fawr.

6.6 Parc-yr-O rsedd: archebwyd 5 o feinciau newydd ar gyfer y parc d/l y Cynllun Trefi Taclus: yn dal i ddisgwyl amdanynt.

6.7 Seddau ar gyfer y Swyddfa'r Post, Llanbedr PS: boed i'r Clerc siarad â Mr Mike Savoy, Archfarchnad y Co-op ar y 19eg o Fehefin. Y mae dwy gadair â chlustogau meddal wedi eu lleoli'n agos i'r cownter. Trefnwyd ail-gynllunio'r siop yn ystod y misoedd nesaf. Bwriada Mr Savoy godi'r cais am ddwy sedd sefydlog wedi eu bolltio l'r llawr, mewn cyfarfod a drefnwyd ar gyfer y newidiadau ond ni fedrai gytuno ar unrhyw addewid. Cyfrifoldeb yr Archfarchnad yw'r mater.

6.8 Newid Enw Lle – King George V Green i Parc St. Germain-sur-Moine,: Mae cytundeb wedi ei wneud mewn egwyddor gan y Cyngor Sir i newid enw'r lle ac i godi'r arwydd. Y Maer a'r Dirprwy-Faer i wneud ymholiadau pellach parthed dyluniad yr arwydd ac i adrodd nôl i'r CT.

6.9 Llythyr gan Mr Jamie McCormack Turner 2 Glyndŵr, Teras-yr-Orsaf, Llanbedr PS, SA48 7HB (3/12/2008) yn dweud wyneba anawsterau pan geisia derbyn nwyddau/parseli ac ati i'w gyfeiriad ac yn gofyn am y

ddarpariaeth o arwydd stryd ar gyfer y 5 Tŷ Teras. Sicrhawyd aelodau gan Mr Lyndon Griffiths Peiriannyd Is-Adrannol (Trefol) CSC y bydd arwydd newydd yn datgan yr enw **Clos Glyndŵr** yn cael ei brynu gan Gyngor Sir Ceredigion. Gan nad oes arwydd wedi ei osod yn y safle yma o'r blaen rhaid i'r CSC dderbyn caniatâd gan un o berchnogion y tai i osod yr arwydd ar eu heiddo. Gan mai'r CT sydd wedi crybwyll y mater gofynnwyd iddynt i gadarnhau y caniateir yr arwydd ar un o'r tai dan sylw. Boed i'r Cyng. Phillips siarad â Mr Simon Anderson, un o drigolion y tai sydd wedi cytuno ar lafar i osod yr arwydd ar ei dŷ. I ofyn am ganiatâd ysgrifenedig ac i hysbysu'r CSC.

6.10 Cyngor ar Bopeth: parthed cais y CT am gyflwyniad. Yn disgwyl clywed oddi wrthynt.

6.11 Cŵn yn Baeddu: archebwyd 100 o daflenni dan law'r Cyngor Sir. Mae'r taflenni'n cael eu hail-argraffu ar hyn o bryd. Derbyniwyd lythyr gan Mr Dewi Roberts, Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai CSC yn dweud bod trefniadau ar y gweill i dynnu sylw at y problemau hynny sy'n gysylltiedig â chŵn yn baeddu o fewn y sir ee yn ystod "Wythnos Genedlaethol y Rhaw Faw (22-26 Mehefin 2009) cynhelir nifer o ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r canlyniadau gwrthgymdeithasol a'r perygl i iechyd a achosir gan berchnogion cŵn anghyfrifol. Yn ogystal cynigir y cyfle i roi microsglodion ar gŵn. Fel rhan o'r gwaith y mae angen i Adain Diogelu'r Amgylchedd ei wneud, gofynnwyd i'r swyddogion gysylltu â'r cynghorau tref a chymuned fel y gellir nodi lleoliadau lle ceir nifer o achosion o faeddu ac ymddygiad anghyfrifol ymhlith perchnogion cŵn. Cytunwyd i ofyn iddynt i ystyried strydoedd y dref yn Llanbed.

6.12 Ymgynghoriad ar newid gofod awyr i sefydlu gofod awyr arwhân ar gyfer amgylchedd systemau awyrennau di-griw Cymru: yr ymateb i'w gyflwyno erbyn yr 28ain o Orffennaf.

6.13 Bwrdd yr Iaith: Dweud eich dweud am wasanaeth Cymraeg: er gwybodaeth.

6.14 Partneriaeth Pobl Ifanc Ceredigion: cyfarfod 17/07/2009 – Enwebwyd y Cyng. Ramaya/Dafis a Mason-George i fynychu'r Cyfarfod. Byddai cwestiwn yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr Agenda megis, "A fydd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ieuanc yn barod i helpu Llambed i gynyddu ei ddarpariaeth ar gyfer yr ieuainc?"

6.15 Shelter Cymru: parthed yr wasaneth yn Llambed; yn disgwyl cylwed oddi wrthynt.

6.16 Adroddwyd fod tua chwarter yr arwydd stryd yn datgan y geiriau 21-26 Bryn-yr-Eglwys/Penbryn wedi cael ei dorri i ffwrdd. Hefyd yr arwydd â'r geiriau Maesyderi/ Gwêl y Creuddyn sydd wedi ei leoli o flaen Eglwys San Pedr, y mae wedi colli ei siap. I adrodd at y CSC.

7. GOHEBIAETH

7.1 Blin oedd aelodau i glywed am farwolaeth Mr Graeme Kidd. Chwaraeodd ran allweddol pan sefydlwyd y mudiad *Cittaslow DU (UK).* Boed iddo groesawu aelodau'r CT i Lanllyr yn Ebrill 2007 pan ymwelwyd â'r dref i geisio gwybodaeth ynglŷn â *Cittaslow.* Boed i Mr Kidd wneud cyflwyniad ar *Cittaslow* yn Theatr Tucker ar y 13eg o Fai 2008. I ysgrifennu at Gyngor Tref Llanllyr I fynegi cydymdeimlad.

7.2 Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW): Cylchgrawn ac yn hysbysu'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol YDCW sy'n cael ei gynnal Dydd Sadwrn 27 Mehefin 2009 am 2.00pm ym Mhlas Dolerw, Y Drenewydd.

7.3 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. Menter Llambed

Adroddodd y Cyng. Greg Evans

8.1 Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am yr ail dro cyn bo hir.

8.2 Holwyd petai'n bosibl i archebu'r goleuadau ar gyfer y tîmau pêl droed a rygbi (gwnaed cyfraniad o £1,000 o goffrau'r CT yn Nhachwedd 2008) dan law'r CT ac fel canlyniad gellir gwneud cais am ad-daliad y Treth-Ar-Werth. Y Clerc i ddarganfod dichonolrwydd y cynnig.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 Mae'r ceisiadau canlynol wedi eu caniatau gan Gyngor Sir Ceredigion

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	**Ymgeisydd a'r bwriad**	**Lleoliad**
5/06/2009 Rhif y Cais; A090212	Mrs L Mason-George Newid defnydd i ganolfan deulu (grŵp chwarae)	6 Stryd San Thomas, Llanbedr PS
12/06/2009 Rhif y Cais: A090322	Archfarchnad Sainsbury Cyf Adeiladu estyniad a ffrynt siop newydd	Archfarchnad Sainsbury Cyf Stryd Y Farchnad Llanbedr PS

9.2 Cais Cynllunio: **Newidiadau i'r rhannau allanol sy'n codi a'r llawr isaf.** Llwynderw Pentrebach, Llambed. Arsylwadau'r CT: dirprwyo swyddogaethau i'r Maer a'r Dirprwy-Faer fel y crybwyllwyd mewn cofnodion cynt i gwrdd â gofynion y rheol 14 niwrnod CSC a gyflwynwyd ar y 1af o Fehefin 2009: dim gwrthwynebiad.

9.3 Cais Cynllunio: Newidiadau i drosi adeilad pwyso-ar (lean-to). Y Felin, Stryd-y-Felin, Llanbedr PS. Rhif y cais: A090400LB: Arsylwadau'r CT: dirprwyo swyddogaethau i'r Maer a'r Dirprwy-Faer – dim gwrthwynebiad.

9.4 Cais cynllunio: Arddangos Arwyddion: Archfarchnad Sainsbury Cyf. Rhif y cais: A090414AV: Sylwadau'r CT dan law'r Maer/Dirprwy-Faer: Mae'r Cyngor Tref yn falch bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu arwyddion ddwy-ieithog. Hoffai'r CT, beth bynnag, ddwyn sylw at y ffaith bod rhai geiriau wedi eu hargraffu'n anghywir yn yr iaith Gymraeg fel yr ymddangosant ar yr arwyddion ee dylai'r gair ag**a**red ddarllen agor**e**d.

9.5 Rhif y Cais: A07007: codi 4 adeilad (lluniau adolygedig Amod 2 (040141) – Plotiau 65-68 Bryn Steffan Heol Aberaeron, Llambed, wedi cael ei waredu erbyn hyn o dan Erthygl 25 (11) (a) o'r Gorchymyn Cynllunio Tref a gwlad (Trefn Datblygiad Cyffredinol) 1995.

9.6 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Agenda10fed o Fehefin a Chofnodion 13eg o Fai: er gwybodaeth.

10. CYLLID

10.1 Cyfraniadau:

10.1.1 Carnifal Llambed £400

10.1.2 Ffair Fwyd Llambed £400

10.1.3 Siambr Fasnach Llambed £150: costau dyfrhau'r basgedi sy'n hongian dan law'r CSC. Holwyd tybed a fyddai'n bosibl i'r Saimbr i berchnogi offer dyfrhau eu hun.

10.2 Y ffens newydd ei osod, Parc-yr-orsedd: d/l Mr GD Evans, Gwêl y Creuddyn, Heol y Gogledd, Llambed £9,230.89 (gab gynnwys TAW)

10.3 **Derbyniwyd gais** am gymorth ariannol gan *Sioe'r Cardis.* Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

10.4 **Cyflog y Clerc** (Mehefin) £498.90.

10.5 **Golau/Gwres/Storio**: £20.00

10.6 **Treth Incwm a Chyfraniadau YC**: £73.00

10.7 **Peintio'r gât ar fynedfa wrth ochr Parc-yr-Orsedd** gan gynnwys glanhau'r reiliau a'r gât- dwy got o baint Hammerite- llafur yn unig: £210.

10.8 **Plethdorch Diwrnod- D-Day: 6ed o Fehefin** £20.00

10.9 **Ysgrifennu ar y darian** ar gyfer tlws Mrs Janet Evans: Tlysydd Lloyds Llambed £20.00.

10.10 **Anfoneb BT a Band-**Eang: 3 mis: £125.35 (gan gynnwys TAW)

10.11 **Teifi Forge Cyf:** darparu bolltau a darnau trwsio ar gyfer y meinciau ym Mharc-yr-orsedd £20 TAW £3.

10.12 **Llogi neuadd yr Eglwys:** 28ain o Fai: cyfarfod y CT 3.5awr @£7.50/awr £26.25.

10.13 **Archwiliad mewnol:** Cyfrifon y Cyngor Tref: cânt eu harchwilio yn ystod y mis nesaf gan Mr Dave Smith.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 Llwybrau Ceredded gan gynnwys Parc-yr-Orsedd

11.1.1 Adroddodd y Cyng. Carter bod Cymdeithas y Cerddwyr yn bwrw ymlaen â'r llwybrau adolygedig a gyfeiriwyd atynt yng nghofnodion fis Ionawr 2009 y CT. Efallai iddynt geisio arain ar gyfer darnau ffitio'r gatiau o gronfa'r CT. Bydd y camfeydd yn cael eu cyfnewid am gatiau sy'n cyffwrdd â'i gilydd.

11.1.2 **Parc-yr-Orsedd:** Mae'r Cyngor Tref yn dal i aros am gloriau newydd ar gyfer y biniau. Gadawyd fwlbiau Cennin Pedr, sy'n weddill gan y Cyngor Sir Ceredigion, ym Mharc-yr-Orsedd. Ystyriwyd eu plannu yng nghyffiniau'r arwyddion tref newydd ar fynedfeydd y dref.

11.1.3 **Archwiliadau Blynyddol o Feysydd Chwarae:** bydd Parc-yr-orsedd yn cael ei gynnwys yn y gwasanaeth Archwilio Caeau Chwarae CSC yn ystod Hydref 2009. Ni ymgymrwyd ag ymchwiliad gan y CSC yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf er bod y Cyng. Chris Thomas yn arolygu'r parc yn gyson.

11.2 CTCC

11.2.1 **Adroddiad Misol ar gyfer Mai CSC**: bu yna 2 gais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud ag ysgarmes a gweithgaredd drwgdybus a 2 gais am ddisgiau copi. Roedd diffyg ar un camera gan na fedra arddangos delweddau na recordio o'r 2.06.2009 i'r 7.05.2009 – collwyd 5 diwrnod o amser goruchwylio.

11.3 PALMANTAU

11.3.1 **Mae'r palmant o flaen** 13-18 Teras-yr-orsaf wedi ei orchuddio â tharmac – i hysbysu'r CSC**.**

12. U.F.A.

12.1 Cofrestr Asedau Sefydlog Y Cyngor Tref: mae angen ei ddiweddaru. Ar hyn o bryd y mae nifer o eitemau wedi eu gwasgaru dros nifer o leoliadau o fewn y dref. Gwnaeth y Maer apêl i bawb a oedd ym meddiant eiddo'r CT i hysbysu'r Clerc er mwyn cofnodi'r eitem ar y cofrestr. Cytunodd y Cyng. Wilson i gwtogi rywfaint ar y Bwrdd Anrhydedd, sydd wedi ei leoli ar hyn o bryd yn Swyddfa Ddidoli'r Post, Stryd-yr-Orsaf.

12.2 Adroddodd y Gyng. Davies-Evans bod y seddau gerllaw Siop Roberts ar Stryd San Thomas mewn cyflwr budr. Hefyd, roedd angen chwynnu'n ddirfawr o dan a gerllaw'r seddau – i adrodd at sylw'r CSC.

12.3 Holodd y Maer tybed a fyddai'n dderbyniol i ddiweddaru'r weddi sy'n cael ei hadrodd ar ddechrau'r cyfarfod y Cyngor Tref, yn syth cyn *Gweddi'r Arglwydd.* Cytunwyd i ofyn i'r Canon Aled Williams i newid ffurf y weddi heb gyfaddawdu'r neges.

12.4 Dymunwyd yn dda i Adroddwr y Wasg Mr Wil Gant sy'n ffarwelio â'i swydd gan y Cambrian news yn fuan iawn. Bydd yn ymgymryd ag addysg bellach yn Nottingham.

12.5 Adroddodd y Gyng. Mason-George bod nifer o aelodau'r cyhoedd wedi mynegi pryder ynglŷn â'r diffyg lle i barcio ar gyfer loriau trwm, hir a llwythog (HGVs) o fewn y dref. Yn ychwanegol, gresynwyd y ffaith nad oedd lleoedd ar gael ar gyfer bysiau i barcio. Nid yw loriau trwm, hir a llwythog a bysiau'n stopio'n y dref bellach. Mae'r effaith anffafriol ar y dref ac yn enwedig ar fasnachwyr yn ystod y ddirwasgiad yn arwyddocäol. Roedd aelodau o'r farn y dylai baeau parcio fod ar gael cyn gynted â phosibl ar gyfer ee y *Ganolfan Gwitiau Jen Jones* sydd ar fin agor yn y dref.
Trafodwyd hefyd diffyg lleoedd parcio ar gyfer ceir ee ar faes parcio'r Cwmins sy'n llawn yn gynnar iawn yn y bore heb fawr o gerbydau'n symud yn ystod y dydd. Cytunwyd i ofyn i GSC i ystyried yr holl broblem o barcio yn y dref.
Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir I ymgymryd ag Arolwg Trafnidiaeth Llawn yn y dref i ystyried ee Lôn Picton, Heol y Porthmyn, Stryd Y Felin, Man-Pinsio ar Stryd y Coleg i enwi ond ychydig o leoedd sydd angen sylw.

12.6 Penderfynwyd gwneud trefniadau i leoli polyn-baner ar Barc St. Germain-sur-Moine.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.05pm.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf:
Nos Iau 30ain o Orffennaf am 7.30pm yn Neuadd yr Eglwys San Pedr.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)